

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd Nos Lun Ionawr 20fed am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cyng Rob Parkes (Cadeirydd), Gaynor Morgan-Rees, Dyfrig Berry & Lara Pritchard; & Jenny Barlow (Clerc Y Dref)

**Ymddiheuriadau:** Cyng Philip Stevens, Alyn Ashworth & Irene Williams.

**Arsylwi:** Cyng Rhys Thomas.

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod mis Ionawr.

1. **Datgan Diddordeb Personol:** Dim
2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar nos Lun 9fed o Ragfyr 2019.**
3. **Materion yn codi** - Dim.
4. **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio.**

Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau ar y ceisiadau isod.

1) 01/2019/1052

Fferm Kilford, Ffordd Eglwyswen, Dinbych

Codi adeilad amaethyddol i gorchuddio yr ardal bresennol sy'n trin gwartheg.

2) 01/2019/1053

Fferm Kilford, Ffordd Eglwyswen, Dinbych

Codi adeilad amaethyddol i gorchuddio yr ardal ymadael y parlwr godro.

3) 01/2019/1054

Angorfa, Y Green, Dinbych

Codi estyniad deulawr i ochr a chefn yr annedd bresennol a gwaith cysylltiedig.

.....

Codwyd gwrthwynebiadau ar y cais isod:

4) 01/2019/1077

Y Glyn, Parc, Llewini, Ffordd y Wyddgrug, Dinbych

Datblygu 0.77 ha o dir trwy lleoli 8 stiwdios eco a gwaith cysylltiedig.

Gwrthwynebodd y cynghorwyr tref ar sail fod hwn yn ddatblygiad mewn ardal wledig agored ac yn groes i bolisiau y CDLL. Ymysg yr adrannau sy'n berthnasol mae

Polisi VOE 1 – Ardaloedd gwarchodaeth allweddol

Mae'r polisi yn gwarchod lleoliadau o 4 math a mae'r lleoliad yn ffitio o leiaf un o'r categorïau hyn sef

- Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol.
- Polisi PSE14 adran iv)

Mae hwn yn caniatáu datblygiad cabanau twristiaeth dim ond os oes achos wedi ei wneud i ddangos fod angen arwyddocaol am ddatblygiad o fath. Does dim achos felly wedi ei wneud

Gwrthwynebodd y cynghorwydd hefyd ar y sail y byddai pobl sy'n aros yn y cabanau yn ddibynnol ar geir. Mae'r gwasanaeth bysiau y cyfeirir ato yn annigonol a tydi'r llwybrau y cyfeirir chwaith ddim yn rhai cyfleus. Felly mae'r polisi yn groes i : Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10

Adran 3.12 Mae dylunio da yn ymwneud ag osgoi creu datblygiadau sy'n seiliedig ar geir yn unig.

Adran 3.35 Mewn ardaloedd gwledig dylid lleoli'r mwyafrif o ddatblygiadau newydd yn yr aneddiadau y gellir eu cyrraedd yn gymharol dda drwy ddulliau di-gar.

Adran 4.1.33 Wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, rhaid i awdurdodau cynllunio sicrhau bod cynigion datblygu, trwy eu seilwaith dylunio ac ategol, yn rhoi blaenoriaeth i ddarparu ar gyfer hygyrchedd a symudiad ar droed a beic ac o wneud, cynyddu eu cyfraniad at amcanion y Ddeddf Teithio Llesol.

Nid ydir cynghorwyr tref yn fodlon nad ydi'r cabannau yma yn dod dan ddisgrifiad Carafanau Statig. Tydi'r cais ddim yn eglur os ydynt yn gabanau fyddai'n bosibl eu symud ee ar lori. Os ydynt yn dod dan y diffiniad yna rydym hefyd yn gwrthwynebu ar y sail na ddylid caniatáu datblygiadau o'r fath fyddai'n groes i Bolisi PSE 12 y CDLL.

.....

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 6.45yh.

Arwyddwyd:.....(cadeirydd)

Dyddiad:.....